NOL ATAT TI

Dw'i wedi cerdded dros y peithe yn y de
Dw'i wedi drysu yn y tywyllwch rhwng dau le
Dw'i wedi dysgu sut i holi be 'dy be
Ond dwy'n dod 'nôl atat ti

Dw'i wedi gorfod dewis rhwng y chwith a'r dde
Dw'i wedi colli'r ffordd a chanfod d'wn i'm ble
Dw'i wedi chwilio am gymwynas ambell le
Ond dwy'n dod 'nôl atat ti

Mae glaw du'n syrthio ar y tir
Mae'n anodd dewis rhwng y gau a'r gwir
Mae clychau'n dal i ganu draw ar Ynys Bŷr
Ond dwy'n dod 'nôl atat ti

Dw'i wedi esgor popeth a ddisgwylir wrtha i
Dw'i wedi hepgor y pethau dibwys oedd gen i
Dw'i wedi talu'r ddyled ola' fu arna i
A dwy'n dod 'nôl atat ti

Pan ddaw y pethe hyn i ben
Pan ddaw llonyddwch dros fy mhen

© Geraint Griffiths 2006